NRA Thames 189

Ian Adams
Regional Scientific Manager
KMH3

llwyddiannau'r gorffennol

# past

achievements

gweithgareddau'r presennol

# present

activities

vision

# future

gweledigaeth y dyfodol

NRA

National Rivers Authority

**Annual Review and Summary Accounts 1994 - 95**

# Our Mission

**Ein Cenhadaeth**

"We will protect and improve the water environment by the effective management of water resources and by substantial reductions in pollution. We will aim to provide effective defence for people and property against flooding from rivers and the sea.

In discharging our duties we will operate openly and balance the interests of all who benefit from and use rivers, groundwaters, estuaries, and coastal waters. We will be businesslike, efficient, and caring towards our employees."

"Byddwn yn diogelu ac yn gwella amgylchedd y dŵr trwy reoli'r adnoddau dŵr yn effeithiol a thrwy sicrhau gostyngiadau sylweddol mewn llygredd. Byddwn yn anelu at amddiffyn pobl ac eiddo rhag llifogydd afon a môr. Wrth gyflawni ein dyletswyddau byddwn yn gweithredu'n agored ac yn cadw'r ddysgl yn wastad rhwng pawb sy'n defnyddio afonydd, dŵr daear, aberoedd a dyfroedd arfordirol. Byddwn yn gweithio mewn ffordd ddi-lol ac effeithiol gan ofalu am ein gweithwyr."

The NRA, formed in September 1989, will finish its work when the new Environment Agency begins its task in April 1996, building on the solid foundation created by the NRA. However, despite the burden of change over recent months, we have never lost sight of our responsibility for the effective and efficient guardianship of the water environment.

We have had a central role in the dramatic improvement in water quality achieved since 1989. This has been confirmed in the latest analysis of river quality, with the total length of rivers and canals in England and Wales showing a net improvement of 26% in 1994, since the 1990 baseline was set. This has been possible thanks to tough regulation, improved relations with those we regulate, effective public consultation, and the unprecedented investment by water companies, industry and farmers to reduce pollution effectively.

Since privatisation we have ensured that debate about the protection and improvement of the water environment goes on in public, not in private as has too often been the case before. The Catchment Management Planning approach allows interested

# Chairm

Daw gwaith yr Awdurdod Afonydd Cenedlaethol (AAC), a ffurfiwyd ym mis Medi 1989, i ben pan fydd Asiantaeth newydd yr Amgylchedd yn dechrau ar ei gwaith hithau ym mis Ebrill 1996 ac yn adeiladu ar y seiliau cadarn a osodwyd gan yr AAC. Er holl brysurdeb y paratoi ar gyfer y newid, nid ydym wedi anghofio mai'n cyfrifoldeb yw diogelu amgylchedd y dŵr yn effeithiol.

Ers 1989, mae ansawdd dŵr wedi gwella'n aruthrol a buom yn ganolog i hynny. Mae'r dadansoddiad diweddaraf a wnaed o ansawdd afonydd ym 1994 yn cadarnhau'r gwelliant - cafwyd bod ansawdd 26% o holl afonydd a chamlesi Cymru a Lloegr wedi codi ers 1990 pan osodwyd y llinynnau mesur gwreiddiol. Mae'r gwelliant hwn i'w briodoli i reolaeth gadarn, perthynas iach â'r rheini rydym yn eu rheoli, ymgynghori effeithiol â'r cyhoedd a mwy o fuddsoddi nag erioed gan y cwmnïau dŵr, diwydiannau a ffermwyr i leihau llygredd.

Ers preifateiddio, rydym wedi mynnu bod y drafodaeth am warchod a gwella amgylchedd y dŵr yn digwydd yn gyhoeddus yn hytrach nag y tu ôl i ddrysau caeedig fel cynt. Bu Cynlluniau Rheoli Dalgylchoedd yn fodd i bawb gyfrannu at y broses gynllunio ar y lefel leol.

parties to participate in planning at local level. In 1992, following extensive consultation, we advised Government that water quality objectives should be made statutorily enforceable using the powers provided by the 1989 legislation. We eventually received the go-ahead from Government in February 1995 to pilot the operation of statutory water quality objectives in eight selected river catchments.

Ministers, answerable to Parliament, decide environmental policy, and how big a burden can be placed on those who have to pay, but it is the NRA's job to make clear its views, and to advise Government accordingly.

During the last round of negotiations to set the investment programme of the water companies for the next ten years (the so called AMP2 round), Government listened to our view that additional investment was needed to deal with pollution problems affecting many of our rivers. This resulted in 'discretionary' investment that will allow a good proportion of schemes to proceed. We also made it clear that any savings made in the total investment programme should be shared with water company customers and the environment, not solely with shareholders. The Director General of OFWAT wishes to see the NRA and its successor, the Environment Agency, involved in the process of consultation about environmental priorities.

We continue to give advice and support to Government on the setting up of the Agency and have developed a close liaison with our future partners. The Agency will provide the opportunity for integrated environmental management and for a more streamlined service to industry and the public than is possible under the current separate arrangements. I wish its newly appointed Chairman, Lord De Ramsey, every success.

Success will depend upon the smooth working of the partnership with Government, with the Agency being clear and forceful, and the Government departments giving guidance and those decisions required by statute promptly and openly. The new Agency's task is immense in scale and importance, and needs to be urgently addressed by both partners.

# an's Statement

## Datganiad y Cadeirydd

Ym 1992, ar ol ymgynghori'n helaeth, gwnaethom argymell i'r Llywodraeth y dylem gael manteisio ar bwerau deddf 1989 i gyflawni'n hamcanion ansawdd dŵr. Cafwyd sêl ei bendith o'r diwedd ym mis Chwefror 1995 i roi sail statudol i'n hamcanion ansawdd dŵr yn nalgylchoedd wyth afon am gyfnod arbrofol.

Penderfynir ar bolisi amgylcheddol a faint o faich y dylai'r rheini sy'n talu amdano ei ysgwyddo gan weinidogion sy'n atebol i'r Senedd, ond gwaith yr AAC yw esbonio'i safbwyntiau a chynghori'r Llywodraeth yn unol â hynny.

Yn ystod y rownd ddiweddaraf o drafodaethau i bennu maint rhaglen fuddsoddi cwmnïau dŵr am y deng mlynedd nesaf (yr AMP2 fel y'i gelwir), gwrandawodd y Llywodraeth ar ein ple bod angen mwy o fuddsoddi i ddelio â'r llygredd sy'n effeithio ar lawer o'n hafonydd. Canlyniad hynny oedd 'buddsoddi dewisol' sy'n golygu y caiff cyfran dda o'r cynlluniau fynd yn eu blaenau. Dywedasom hefyd y dylid rhannu unrhyw arbedion sy'n deillio o'r rhaglenni buddsoddi â chwsmeriaid y cwmniau dŵr a'r amgylchedd, ac nid â'r cyfranddalwyr yn unig. Mae Cyfarwyddwr Cyffredinol OFWAT yn awyddus i weld yr AAC, ac yna asiantaeth yr amgylchedd, yn cymryd rhan yn y broses o ymgynghori ar flaenoriaethau amgylcheddol.

Rydym yn parhau i roi cyngor a chefnogaeth i'r Llywodraeth ynglŷn â sefydlu'r Asiantaeth ac mae gennym bellach berthynas dda iawn â'n darpar-bartneriaid. Bydd yr Asiantaeth yn gyfle i reoli'r amgylchedd mewn ffordd integredig ac yn cynnig gwasanaeth llai biwrocratig i ddiwydiant a'r cyhoedd nag sy'n bosibl o dan y drefn bresennol. Dymunaf bob llwyddiant i'w Chadeirydd, yr Arglwydd De Ramsey, a benodwyd yn ddiweddar.

I lwyddo, rhaid iddi gydweithio'n hapus â'r Llywodraeth a gweithredu'n glir a grymus a bydd gofyn i adrannau'r Llywodraeth roi arweiniad buan ac agored ar faterion statudol. Mae tasg yr Asiantaeth, o ran ei maint a'i phwysigrwydd, yn anferthol a bydd gofyn i'r naill bartner a'r llall ymroi ar fyrder i'r dasg honno.



Lord Crickhowell has been the Chairman of the NRA since its formation in 1989.

Mae'r Arglwydd Crickhowell wedi bod yn Gadeirydd ar yr AAC ers ei ffurfio ym 1989.

# Past achiev... Llw

**QUALITY UP 26.1%**

**Water Quality**

We have seen a net upgrading in quality of 26.1% of the total length of rivers and canals across England and Wales between 1990 and 1994. The poorest classes have been reduced from 15.1% of the total to 9.3%.

**Ansawdd Dŵr**

Rhwng 1990 a 1994, mae ansawdd 26.1% o holl afonydd a chamlesi Cymru a Lloegr wedi codi. Dim ond 9.3%, o'i gymharu â 15.1%, o'r cyfanswm sydd bellach yn perthyn i'r dosbarth gwaethaf.

**£1M SAVED**

**R&D**

Partnerships and collaborative funding initiatives with other research-commissioning organisations are estimated to have reduced the direct cost of the NRA's R&Dprogramme by about £1 million. This has resulted, amongst other things, in the publication of a report providing essential information on the management and protection of rare fish species.

**Ymchwil a Datblygu**

Amcangyfrifir bod cynlluniau a phrosiectau cyd-ariannu rhwng yr AAC a sefydliadau comisiynu ymchwil eraill wedi sicrhau gostyngiad o oddeutu £1 miliwn yng nghostau uniongyrchol rhaglen Ymchwil a Datblygu'r AAC. Un o ganlyniadau hynny oedd cyhoeddi adroddiad hollbwysig ar reoli a gwarchod pysgod prin.

**Operations**

Our emergency response to pollution incidents ensured that 93% of major incidents were attended within the standard of service target time.

**Gweithrediadau**

Llwyddwyd i ymateb i 93% o achosion o lygredd difrifol o fewn yr amser a bennwyd gan ein safonau gwasanaeth.

**93% within target**

**109 EMERGENCY RESPONSES**

**Flood Defence**

Following heavy winter rainfall, we provided an effective emergency response to 109 major flooding incidents. Without prompt and effective action many more people would have been affected by flooding.

**Amddiffyn Rhag Llifogydd**

Yn dilyn y glaw trwm a gafwyd yn y gaeaf, llwyddwyd i ymateb yn effeithiol i 109 o achosion o lifogydd difrifol. Onibai am ein hymateb effeithiol a chyflym, byddai mwy o lawer o bobl wedi dioddef oherwydd y llifogydd.

**9000 KM SURVEYED**

**Fisheries**

Surveys of 9,000km of fisheries; the completion of 51 new fish passes and 167 physico-chemical improvements; the stocking-out of over 7 million fish; and inspection of over 237,000 licences all went to ensuring the regulated management and improvement of fisheries.

**Pysgodfeydd**

Cynhaliwyd arolygon o 9,000km o bysgodfeydd; cwblhawyd 51 llwybr pysgod newydd a 167 o welliannau ffisego-gemegol; rhyddhawyd dros 7 miliwn o bysgod; a chafodd mwy na 237,000 o drwyddedau eu harchwilio. Cyfrannodd yr holl weithgarwch hwn at reoli a gwella pysgodfeydd.

"The future of e

EIN GWE

undoubtedly lies in an integ

AR DDATBLYGU INTEGREDIG A CHYNALADWY AC O'R HERWYDD, MAE'R AAC YN RHAGWELD Y BYDD YN

development and, as such, t

WYNEBU'R ASIANTAETH: RHAID IDDI WNEUD GWAHANIAETH REAL A CHADARNHAOL I'R AMGYLCHEDD;

major role in the success of

RHAID IDDI FOD MOR EFFEITHIOL AC EFFEITHLON Â'R DIWYDIANNAU Y BYDD YN EU RHEOLI. YR HER

The Agency will have three

a real and positive differenc

carry public opinion with it

of £550 million, it must be

as the industries which it s

real challenge will be to m

difference that lasts."

**Recreation**
50 NRA new capital works incorporated recreation work.

**Hamdden**
Roedd 50 o gynlluniau cyfalaf newydd yr AAC yn cynnwys elfennau hamddena.

50 NEW CAPITAL WORKS

**Environmental Policy**
An environmental procurement policy has been implemented and training given to procurement officers. The production of Environmental Guidelines, covering most of the products purchased by the NRA, specify lower environmental impacts.

**Polisi Amgylcheddol**
Cafodd polisi pryniannau amgylcheddol ei roi ar waith a rhoddwyd hyfforddiant i swyddogion prynu. Mae Canllawiau Amgylcheddol newydd, ar gyfer bron yr holl gynhyrchion a brynir gan yr AAC, yn mynnu'r safonau amgylcheddol gorau.

PROCUREMENT POLICY IMPLEMENTED

**Navigation**
A 14-day visitor licence allowing licenced users on one NRA navigation to utilise all other NRA navigations for free was introduced for 1995/6.

**Mordwyo**
Ym 1995/6, cyhoeddwyd trwydded 14 diwrnod sy'n caniatau i gychwyr ar un o ddyfrffyrdd yr AAC i ddefnyddio holl ddyfrffyrdd eraill yr AAC am ddim.

NEW LICENCES AVAILABLE

# yddiannau'r gorffennol

# ements

**Water Resources**
During 1994/5 solutions to low flow rivers were implemented at Blakedown Valley in the Midlands, the River Slea, and Black Ditch, both in East Anglia. A further eight schemes are underway.

**Adnoddau Dŵr**
Ym 1994/95, rhoddwyd cynlluniau ar waith i liniaru problemau llif isel yn Nyffryn Blakedown yng Nghanolbarth Lloegr a'r Afon Slea a Black Ditch yn East Anglia. Mae wyth cynllun pellach ar y gweill.

RIVER LEVELS IMPROVED

**Conservation**
Out of a total of over 356 conservation projects 279 (78%) were undertaken on a collaborative basis with a wide range of conservation partners, sharing expertise and costs. An example is the wetland habitat and hide construction at the Wildfowl and Wetlands Trust Centre at Slimbridge.

**Cadwraeth**
O gyfanswm o fwy na 356 o brosiectau cadwraeth, roedd 279 (78%) yn gynlluniau ar y cyd ag amrywiaeth o bartneriaid cadwraeth, gan rannu arbenigeddau a chostau. Enghraifft oedd creu gwlyptir ac adeiladu cuddfannau yng Nghanolfan Ymddiriedolaeth Adar y Dŵr yn Slimbridge.

356 PROJECTS COMPLETED

nvironmental management

LEDIGAETH AR GYFER Y DYFODOL. BYDD RHEOLI'R AMGYLCHEDD YN Y DYFODOL YN DIBYNNU

rated approach to sustainable

CHWARAE RHAN BWYSIG YN LLWYDDIANT ASIANTAETH NEWYDD YR AMGYLCHEDD. BYDD TAIR HER YN

he NRA anticipates playing a

RHAID IDDI ENNYN CEFNOGAETH Y CYHOEDD; A CHYDA'I CHYLLIDEB FLYNYDDOL O £550 MILIWN, BYDD YN

the new Environment Agency.

FWYAF FYDD GWNEUD GWAHANIAETH FYDD YN PARHAU.

main challenges: it must make

e to the environment; it must

; and, with an annual budget

as effective and efficient

eeks to regulate. The

ake a



Ed Gallagher has been the Chief Executive of the NRA for the past three years, and has recently been appointed Chief Executive of the new Environment Agency.

Mae Ed Gallagher wedi bod yn Brif Weithredwr ar yr AAC am y tair blynedd diwethaf ac mae newydd gael ei benodi'n Brif Weithredwr Asiantaeth yr Amgylchedd.

NRA Thames 189

ENVIRONMENT AGENCY

NATIONAL LIBRARY &
INFORMATION SERVICE

THAMES REGION

Kings Meadow House, Kings Meadow Road, Reading RG1 8DQ

HO, Bristol

ENVIRONMENT AGENCY
101469

Produced by Public Affairs.
Designed by Stocks Austin Sice, London.
Printed by FS Moore, London.
Printed on "Papetua Milkweed" recycled paper.
Produced from 100% de-inked fibre.
HO 9/95-4k-A-APXO

CHARTER MARK
Awarded for excellence

Cynhyrchwyd gan yr Adran Materion Cyhoeddus.
Dyluniwyd gan Stocks Austin Sice, Llundain.
Argraffwyd gan FS Moore, Llundain.
Argraffwyd ar bapur eildro "Papetua Milkweed".
Cynhyrchwyd yn llwyr o ddeunydd wedi'i ddadincio.